Effaith

Blaenau Gwent

# Cronfa Busnes Effaith BG

Cefnogi Menter ym Mlaenau Gwent

## Canllawiau Cynllun

# Cronfa Busnes Blaenau Gwent

## Nodiadau a Chanllawiau ar gyfer Ymgeiswyr

**PWYSIG**

arbenigol i ddatblygu cynllun busnes, darparu'r offer angenrheidiol neu adnoddau i gychwyn busnes, helpu gyda chostau lleoliad busnes ac yn y blaen.

**2. Beth yw Menter?**

EFFAITH BG oedd y prosiect cyntaf yng Nghymru i fabwysiadu model Hwyluso Menter Sirolli®. Y bwriad oedd i'r prosiect ategu gwasanaethau cymorth busnes a menter a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol a sefydliadau eraill fel Busnes Cymru.

Mae Hwyluswyr Menter yn darparu cymorth trwyadl, un i un. Maent yn cysylltu cleientiaid gyda rhwydweithiau eang o bobl a'r gwahanol raglenni ac adnoddau a gynigir gan sefydliadau datblygu a gweithwyr proffesiynol, yn ogystal â'r gymuned leol.

**3. Pa fath o weithgareddau y gellir eu cefnogi?**

Mae unrhyw weithgaredd sy'n helpu i roi syniad ar waith mewn busnes go iawn yn gymwys i dderbyn cyllid.

Mae'r dilynol yn enghreifftiau o'r math o gymorth y gellid cyflwyno ceisiadau ar eu cyfer:

Cymorth a chyngor arbenigol i ddatblygu eich syniad busnes, e.e. ymchwil marchnad, costau cyfreithiol a chyfrifeg, astudiaeth dichonolrwydd ac yn y blaen

Prynu'r offer hanfodol sydd ei angen i weithredu'r busnes

Cost deunyddiau marchnata i gychwyn eich busnes, e.e. taflenni, cardiau busnes, baneri, gwefan ac yn y blaen

Rhentu safle/adeilad addas i weithredu'r busnes ohono

Gwaith atgyweirio neu wella golwg safle a ddefnyddiwyd ar gyfer diben y busnes

Enghreifftiau yn unig yw'r rhain. Croesawn bob math o gais sy'n gydnaws gyda nodau Cronfa Fusnes Effaith BG.

**4. Pa fathau o weithgareddau na ellir eu cefnogi?**

Mae'r rhestr ddilynol yn rhoi rhyw syniad o'r mathau o weithgaredd **na all** Effaith BG eu cefnogi:

ceisiadau ar gyfer eitemau amhenodol (e.e. arian mewn cronfa wrth gefn)

rhai na fydd eu busnes newydd yn seiliedig ym Mlaenau Gwent

grwpiau gwirfoddol/ cymunedol / elusennau a gwleidyddol

Bydd wedyn angen i chi gyflwyno:-

Ffurflen cofrestru diddordeb
Ffurflen gais
Cynllun Busnes wedi'i lenwi a dogfennau rhagolygon ariannol
2 dyfynbris am bob eitem sydd eu hangen
Dogfennau adnabod

**Rhaid i'ch cais am grant gael ei gymeradwyo cyn unrhyw wariant yn ymwneud â'r cais. Ni fydd unrhyw arian grant ar gael ar gyfer unrhyw wariant a wnaed cyn rhoi cymeradwyaeth ysgrifenedig.**